COFNODION CYFARFOD
O BWYLLGOR RHEOLI CAE MAESYDERI
21ain O ORFFENNAF 2010 AM 7.00PM
SWYDDFA MENTER LLAMBED, LLANBEDR PS

YN BRESENNOL
CYNGOR TREF LLAMBED
Cyng. Maer (Cadeirydd) Rob Phillips;
Cecilia Barton
Eleri Thomas – Clerc, Cyngor Tref Llambed.
CYNGOR SIR CEREDIGION
Cyng Hag Harris
MUDIAD MYDTARA
Lizzie James
Maureen Williams
HEFYD YN BRESENNOL
Pobl Ieuainc
Gethin Bound
Daniel Comer
Jake Davies
Danny James
Sean Knowles
Edward Lewis
William Lloyd

1. **CROESO'R CADEIRYDD**
   Croesawodd y Maer Rob Phillips bawb i'r Cyfarfod.
2. **YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL**
   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Selwyn Walters, Derek Wilson a Sue Davies.
3. **DATGELU BUDDIANNAU PESONOL:** Dim.
4. **COFNODION CYFARFOD 23/06/2010**
   Cytunwyd i gofnodion y cyfarfod hwn fel cofnod cywir. Fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

5. **MATERION YN CODI**
   - **5.1 TRAC BAW**
     - Bydd yn ofynnol i gydymffurfio â safonau diogelwch cymwys.
     - I gysylltu â'r Cwmni Yswiriant i ddarganfod os oes angen yswiriant ychwanegol.
     - Ni gadarnhawyd union safle'r Trac-Baw. Y Maer i drafod y mater ymhellach gyda Mr Lyn Jones cyn dod i benderfyniad terfynol.
     - Bydd yn angen gwneud cynllun.
     - Y pobl ieuainc i ymgymryd â'r prosiect ee cael gwared â'r dywarchen, hirio cloddiwr baw, a gwasgaru baw. Bydd angen ffiniau – ffens. Mr Simon Firth, Cyclemart i gynnig help llaw ar y cychwyn ond ni soniwyd am arolygiaeth oedolion ychwanegol i hyn.
     - £300 o gymhorthdal ar gael d/l Mr Damien Conti.
     - £200 ar gael o ffynhonnell arall.
     - Amcan-bris y gost o'r Trac-Baw - £500 (heb gynnwys y ffens)
   - **5.2 Y FFENS: Mae'r gwaith o osod y ffens mewn lle,bron â'i wblhau** gan Mr Kevin Jones a Mr Emyr Jones, Teify Forge Cyf. Bydd angen swm o £500 yn

ychwanegol i'r dyfynbris cychwynnol. (£7,360 heb TAW). Y mae'r ddwy gât fawr yn cael eu trwsio ar hyn o bryd. Bwriedir bolltio'r ddwy gât.

5.3 TORRI'R GWAIR

Torrwyd y gwair yn arw ar yr 16eg o Orffennaf, am y tro cyntaf ar ôl y 26 o Fai gan Mr Emyr Jenkins a bu iddo ymwared â'r toriadau glaswellt hir. Gorffennaf 7fed oedd y dyddiad cau ar gyfer cynigion – ni dderbyniwyd unrhyw gynigion. Cynhaliwyd cyfarfod safle ar y cae ar y 13eg o Orffennaf rhwng y Maer, Cyng. Sirol Ifor Williams, Cyng. Derek Wilson, Eleri Thomas (Clerc) a Mr Lyn Jones. Gwobrwywyd y cytundeb i Mr Lyn Jones am £200 y mis i gynnwys 2/3 toriad o ganol Orffennaf, Awst, Medi 2010 ac Ebrill i fis Medi 2011 (gan gynnwys Ebrill a Medi). Cytunodd Mr Jones i gadw llygad ar dyfiant y glaswellt drwy gydol y flwyddyn.

5.4 SEDDAU

Prynwyd 2 sedd fetel newydd oddi wrth Mr Alex Page (£325 yr un heb TAW) ar gyfer y cae. Y mae 3 sedd oedd weddill ym Mharc-yr-orsedd wedi eu hatgyweirio gan y Cyng. Chris Thomas ac wedi eu hadleoli'r cae. Yn ogystal lleolwyd 5 bwrdd-picnic yng nghornel y cae. Ni wnaed unrhyw drefniadau ar gyfer eu bolltio i'r ddaear.

5.5 LLWYBRAU

Y sefyllfa yr un peth i'r cyfarfod cynt.

5.6 Y LES

Y Maer wedi gofyn i Gyngor Sir Ceredigion am estyniad o 7 mlynedd ar gyfer y les.

5.7 CASGLU CERRIG AR Y CAE: Adroddwyd bod llawer o gerrig wedi eu gwasgaru dros y cae. *Lizzie James i gydlynu'r dasg o bosibl, o gasglu ychydig o'r cerrig.*

5.8 CŴN YN BAEDDU

- I gysylltu â'r Warden Cŵn, Cyngor Sir Ceredigion. (Clerc)
- I lunio llythyron i ofyn i drigolion lleol i beidio â defnyddio'r cae fell le i gerdded eu cŵn ac i waredu â baw eu cŵn. (Cyng Barton i lunio'r llythyr, Eleri Thomas i gyfieithu'r llythyr a'r pobl ieuainc i ddosbarthu'r llythyron i drigiolion yn y cyffiniau)

Ni chaniateir cŵn yn y cae am resymau iechyd a diogelwch.
Bu i'r Cyng Harris gyrraedd y Cyfarfod.

5.9 3 ARWYDD NEWYDD i'w harddangos ar y ffens ar ôl gorffen y gwaith yn ymwneud âr ffens. I ddileu'r llun *Dim Beiciau.* (Y pobl ieuainc i gydlynu hyn. Y mae'r arwyddion wedi eu storio, ar hyn o bryd yng nghartref y Cyng. Derek Wilson)

5.10 BINIAU

I archebu 2 fin coch, i'w clymu i bostion oddi wrth y cwmni Glasdon (cost oddeutu £40 yr un, heb TAW).

6. UFA

6.1 Adroddwyd nad oedd unrhyw gynlluniau i wastadu'r llain pêl droed ymhellach, ers ymgymryd â'r gwaith ym mis Mawrth eleni.

7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos Fercher 15 o Fedi at 7pm Swyddfa Menter Llambed.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.35pm.

----------(arwyddwyd)

_____(dyddiad)